Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Profi. Olrhain. Diogelu.

**Strategaeth Cymru i'n galluogi ni i ailgydio yn ein bywydau yn raddol ac yn ddiogel.**

---

## PECYN CYMORTH AR GYFER CYFLOGWYR GWEITHWYR HANFODOL

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

# Cynnwys.


| | |
|---|---|
| Arolwg Profi. Olrhain. Diogelu. | 3 |
| Dolenni defnyddiol a’n cais i chi. | 4 |
| Diogelu Cymru gyda’n gilydd. | 5 |
| Negeseuon enghreifftiol. | 6 |
| Copi a fformatau enghreifftiol. | 7-28 |

# Arolwg Profi. Olrhain. Diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Profi, Olrhain, Diogelu er mwyn atal lledaeniad yr haint, olrhain y feirws a diogelu ein cymunedau.

**Mae'n gweithio drwy wneud y canlynol:**
- Profi pobl sydd â symptomau, tra eu bod yn hunanynysu
- Os yw canlyniad y prawf yn bositif, olrhain pobl sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r person sydd wedi'i brofi, gan ofyn iddynt hunanynysu
- Diogelu'r gymuned, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed
- Os yw'r profion yn negatif ac nad coronafeirws sy'n achosi'r symptomau, gall y person sy'n cael ei brofi a'i gysylltiadau fynd yn ôl i'w trefn arferol

Mae profi gweithwyr hanfodol yn allweddol i lwyddiant y dull hwn o weithredu ac i barhad busnes er mwyn galluogi gweithwyr hanfodol i ddychwelyd i'r gwaith yn gyflymach ac yn fwy diogel.

**Archebwch brawf**
Er mwyn rheoli'r capasiti mewn canolfannau profi, mae 2 opsiwn ar gyfer gweithwyr hanfodol i gael prawf:
1. Gall pob gweithiwr hanfodol wneud cais am becyn profi gartref, neu drefnu prawf ar-lein mewn canolfan brofi, drwy fynd i gov.uk/apply-coronavirus-test
2. Gellir defnyddio trefniadau cyfeirio lleol hefyd i archebu prawf yn un o ganolfannau profi drwy uned brofi gymunedol, uned brofi symudol neu ganolfan brofi drwy ffenest y car.

# Dolenni defnyddiol a'n cais i chi.

**Dolenni defnyddiol**

Polisi profi gweithwyr hanfodol:

- llyw.cymru/polisi-profi-gweithwyr-hanfodol-hanfodol-coronafeirws-covid-19

Canllawiau POD:

- llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-canllawiau-i-gyflogwyr
- llyw.cymru/profi-olrhain-amddiffyn-beth-mae-angen-i-chi-ei-wneud
- businesswales.llyw.cymru/coronafeirws-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle

Olrhain cysylltiadau:

- llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-eich-cwestiynau

Trefniadau profi lleol:

- llyw.cymru/cyfleusterau-profi-coronafeirws-rhanbarthol

**Rydyn ni'n gofyn i chi:**

- Deall y broses yn eich ardal i allu rhoi gwybod i'ch gweithwyr sut i gael prawf, atal y lledaeniad, a diogelu'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.
- Codi ymwybyddiaeth o'r profion sydd ar gael drwy rannu gwybodaeth ar draws eich sianelau cyfathrebu â gweithwyr.

# Diogelu Cymru gyda’n gilydd.

Mae ein neges brofi gyffredinol yn glir ac yn syml.

**DIOGELU CYMRU GYDA’N GILYDD.**

Rydym wedi creu asedau i’ch helpu i gyfleu’r neges hon i’ch gweithwyr hanfodol.

Byddwn yn defnyddio’r asedau yn y pecyn hwn, ond mae croeso i chi greu eich fersiynau eich hun gan ddefnyddio’r geiriad a ddarperir. Mae pob ased yn cyfeirio gweithwyr at eu rheolwyr, archebu prawf ar-lein neu ffonio 119, ac i gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-canllawiau-i-gyflogwyr. Mae cyfrifoldeb gan gyflogwyr i ddeall y broses er mwyn gallu rhoi gwybod i’w gweithwyr hanfodol sut i gael prawf.

**Yn y pecyn cymorth hwn fe welwch:**
- posteri y gellir eu hargraffu a rhai digidol
- adnoddau cymdeithasol
- baneri digidol
- copi enghreifftiol
- fideo esboniadol
- banc o ddelweddau

**Beth sydd angen i’ch gweithwyr ei wybod:**

Rhaid i weithwyr hanfodol symptomatig gael prawf. Siaradwch â’ch rheolwr i gael rhagor o wybodaeth.

Archebwch brawf ar-lein neu defnyddiwch y llwybrau cyfeirio lleol.

**Beth sydd angen i’ch gweithwyr ei wybod:**

Rhaid i bobl symptomatig sy’n byw yn yr un tŷ â gweithwyr hanfodol gael prawf. Siaradwch â’ch rheolwr i gael rhagor o wybodaeth.

Archebwch brawf ar-lein neu defnyddiwch y llwybrau cyfeirio lleol.

**DIOGELU CYMRU GYDA’N GILYDD.**
llyw.cymru/coronafeirws

# Negeseuon enghreifftiol.

| | Negeseuon cyffredinol i chi eu defnyddio i gyfathrebu gyda gweithwyr. |
|---|---|
| **SYMPTOMAU** | Adnabod y symptomau.<br>Arhoswch gartref os gennych un o'r canlynol:<br>• peswch newydd, parhaus<br>• tymheredd uchel<br>• neu fethu arogli neu flasu<br>Archebwch brawf er mwyn gwybod pryd i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel ac yn gyflym. |
| **PROFI** | • Rhaid i weithwyr hanfodol symptomatig gael prawf.<br>• Caiff dyraniadau dyddiol o brofion eu blaenoriaethu ar gyfer gweithwyr hanfodol.<br>• Bydd archebu prawf yn galluogi gweithwyr hanfodol i wybod pryd mae'n ddiogel iddynt ddychwelyd i'r gwaith.<br>• Gall gweithwyr hanfodol drefnu apwyntiad ar-lein ar gyfer eich canolfan brofi drwy ffenest y car leol.<br>• I'r rhai nad ydynt yn byw yn agos at ganolfan brofi, gellir archebu pecynnau profi gartref ar-lein.<br>• Gall gweithwyr hanfodol ofyn am becyn profi gartref neu drefnu apwyntiad profi drwy ffenest y car ar gyfer rhywun symptomatig sy'n byw yn yr un ty â nhw.<br>Am ragor o wybodaeth ewch i llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-canllawiau-i-gyflogwyr |
| **OLRHAIN** | • Mae angen i bawb gefnogi gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru a rhannu manylion am eu symudiadau a'u cysylltiadau.<br>• Bydd olrhain cysylltiadau yn ein helpu i fyw ac i weithio ochr yn ochr â'r feirws tra bod ymchwil yn parhau i ddod o hyd i driniaethau mwy effeithiol a brechlyn.<br>• Os yw gweithiwr hanfodol wedi cael prawf positif am y coronafeirws bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â nhw.<br>• Bydd swyddogion olrhain cysylltiadau yn gofyn am fanylion pobl y bu y gweithwyr hanfodol mewn cysylltiad agos â nhw ers i'w symptomau ddechrau. Mae hyn er mwyn helpu i atal y lledaeniad a chadw eich gweithle a'r gymuned yn ddiogel.<br>• Nid mater o orfodaeth na gwyliadwriaeth yw olrhain cysylltiadau. Mae'n diogelu eich iechyd chi, eich ffrindiau, eich teulu, eich cydweithwyr, a'r gymuned.<br>• Mae gweithwyr hanfodol y mae gofyn iddynt hunanynysu o ganlyniad i brawf positif neu ar ôl bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif ar gyfer y coronafeirws, yn gymwys i gael Tâl Salwch Statudol.<br>• Olrhain eich symudiadau. Atal y lledaeniad.<br>Am ragor o wybodaeth ewch i llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-canllawiau-i-gyflogwyr |
| **DIOGELU** | • Cadwch bellter cymdeithasol ar eich taith i'r gwaith ac yn y gwaith.<br>• Cadwch at y rheol 2m bob amser.<br>• Golchwch eich dwylo'n rheolaidd am 20 eiliad a pheidiwch â chyffwrdd â'ch wyneb.<br>• Glanhewch eich desg ac offer a rennir cyn gweithio ac ar ôl egwyliau.<br>I gael rhagor o wybodaeth ewch i businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle |

# Enghreifftiau o bosteri ac adnoddau cyfryngau cymdeithasol.

Rhaid i weithwyr hanfodol â symptomau gael prawf.
Siaradwch â'ch rheolwr am fwy o wybodaeth.

**CAEL PRAWF. ATAL LLEDAENIAD.**
**DIOGELU CYMRU GYDA'N GILYDD.**
llyw.cymru/coronafeirws

Symptomatic critical workers must get a test.
Speak to your manager for more information.

**GET A TEST. STOP THE SPREAD.**
**TOGETHER WE'LL KEEP WALES SAFE.**
llyw.cymru/coronafeirws

---

Rhaid i weithwyr hanfodol ac aelodau o'u cartref sy'n dangos symptomau gael prawf.
Gallwch archebu ar-lein neu drwy ffonio 119.

**CAEL PRAWF. ATAL LLEDAENIAD.**
**DIOGELU CYMRU GYDA'N GILYDD.**
llyw.cymru/coronafeirws

Symptomatic critical workers and members of their household showing symptoms must get a test.
You can book online or by calling 119.


**GET A TEST. STOP THE SPREAD.**
**TOGETHER WE'LL KEEP WALES SAFE.**
llyw.cymru/coronafeirws

# Profi.

# Lleoliadau canolfannau profi.


## UNEDAU PROFI / TESTING UNITS


- Drwy ffenest y car / Drive-through
- Uned brofi gymunedol / Community testing unit
- Uned brofi symudol / Mobile testing unit
- Ffin Awdurdod Lleol / Local Authority Boundary
- Ffin Bwrdd Iechyd Lleol / Local Health Board Boundary



# Posteri enghreifftiol.









*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy'n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau'n cael eu diweddaru a'u newid fel y bo'n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Posteri enghreifftiol.




*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy'n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau'n cael eu diweddaru a'u newid fel y bo'n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Posteri enghreifftiol.










*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy'n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau'n cael eu diweddaru a'u newid fel y bo'n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Adnoddau cyfryngau cymdeithasol.













*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy’n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau’n cael eu diweddaru a’u newid fel y bo’n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Enghraifft o neges wedi'i hanimeiddio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.






# Enghraifft o neges wedi'i hanimeiddio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

























# Straeon enghreifftiol 1.












# Straeon enghreifftiol 2.




# Sgriniau digidol.










*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy'n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau'n cael eu diweddaru a'u newid fel y bo'n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Sgriniau digidol.













*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy'n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau'n cael eu diweddaru a'u newid fel y bo'n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Olrhain.

# Posteri enghreifftiol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales



**Profi, olrhain a diogelu y rhai o’n cwmpas yw’r tri cham pwysig y mae’n rhaid i ni i gyd eu cymryd i ddiogelu Cymru.**

**OLRHAIN EICH SYMUDIADAU. ATAL LLEDAENIAD.**
**DIOGELU CYMRU GYDA’N GILYDD.**

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

llyw.cymru/coronafeirws

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Os ydych wedi cael prawf positif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â chi ar ran gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru.**
**Rhaid dweud wrth y swyddog gyda phwy ydych wedi bod mewn cysylltiad agos. Bydd yn egluro beth mae hyn yn ei olygu ac yn eich helpu i ddeall y drefn.**

**OLRHAIN EICH SYMUDIADAU. ATAL LLEDAENIAD.**
**DIOGELU CYMRU CYMRU GYDA’N GILYDD.**

**If you’ve tested positive for coronavirus you’ll be contacted by a contact tracer on behalf of the NHS Wales Test, Trace, Protect service.**
**Tell them who you’ve been in close contact with. They’ll explain and help you understand the process.**

**TRACE YOUR MOVEMENTS. STOP THE SPREAD.**
**TOGETHER WE’LL KEEP WALES SAFE.**

llyw.cymru/coronafeirws

gov.wales/coronavirus


DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy’n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau’n cael eu diweddaru a’u newid fel y bo’n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Ased cyfryngau cymdeithasol.





# Enghraifft o neges wedi'i hanimeiddio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.























# Olrhain cysylltiadau.

Mae olrhain cysylltiadau yn ddull hirsefydlog o reoli ymlediad clefydau heintus. Y nod yw diogelu iechyd y cyhoedd, ac i chi fel cyflogwr i ddiogelu iechyd eich gweithwyr, er mwyn rheoli lledaeniad y coronafeirws. Nid mater o orfodaeth na gwyliadwriaeth yw hyn.

Wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio'n raddol, bydd angen i bob un ohonom gymryd camau i ddiogelu ein hunain - gan gynnwys cyflogwyr yn diogelu eu gweithwyr, er mwyn atal lledaeniad y feirws yn llwyddiannus. Bydd gwaith olrhain cysylltiadau yn chwarae rhan bwysig i gyflogwyr o ran cynnal parhad busnes a gweithredu gweithle diogel.


Canllawiau i gyflogwyr ar gael yma:
llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-canllawiau-i-gyflogwyr



# Diogelu.

# Posteri enghreifftiol.













*Dylech fod yn ymwybodol bod hon yn sefyllfa sy'n esblygu ac y gall cyngor cyhoeddus newid.*
*Bydd y deunyddiau'n cael eu diweddaru a'u newid fel y bo'n briodol, felly edrychwch am y fersiwn ddiweddaraf.*

# Copi ar gyfer cyfathrebu uniongyrchol â gweithwyr.

Rydym wedi llunio rhywfaint o gopi posibl i chi ei ddefnyddio wrth gyfathrebu'n uniongyrchol â'ch gweithwyr, megis negeseuon testun, WhatsApp ac e-bost.

Mae croeso i chi addasu'r rhain ar gyfer eich sefydliad.

**PENODOL I WEITHWYR**

Y wybodaeth ddiweddaraf bwysig am y coronafeirws.

Fel gweithiwr i [nodwch enw'r sefydliad] sy'n gweithio yn [nodwch yr adran berthnasol] rydych yn weithiwr hanfodol. Mae profion coronafeirws ar gael i chi a phobl sy'n byw yn yr un tŷ â chi, os ydych chi neu nhw yn dangos symptomau.

Siaradwch â'ch rheolwr i gael rhagor o wybodaeth. Mae profion nawr ar gael yn [Rhowch y lleoliadau prawf perthnasol].

DIOGELU CYMRU GYDA'N GILYDD.
llyw.cymru/coronafeirws

**PENODOL I WEITHWYR AC ADRANNAU**


Y wybodaeth ddiweddaraf bwysig am y coronafeirws.

Fel gweithiwr i [nodwch enw'r sefydliad] rydych yn weithiwr hanfodol. Os oes gennych symptomau y coronafeirws, rhaid i chi gael prawf. Os oes symptomau y coronafeirws gan rywun sy'n byw gyda chi, rhaid iddyn nhw gael prawf hefyd.

Siaradwch â'ch rheolwr, archebwch ar-lein neu ffoniwch 119. Mae profion nawr ar gael yn [Rhowch y lleoliadau prawf perthnasol].

CAEL PRAWF. ATAL Y LLEDAENIAD. DIOGELU CYMRU GYDA'N GILYDD.
llyw.cymru/coronafeirws

# Fformatau neges enghreifftiol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE